# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-08-08)

Dyddiad: 15 Ebrill 2008
Amser : 8.15am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

### SLC131 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar  6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gwneud sylwadau ac apelau yn erbyn taliadau ar gyfer symud ymaith, storio a gwaredu cerbyd a symudir ymaith o dan y Ddeddf honno o ardal sydd yn ardal gorfodi sifil ar gyfer tramgwyddau parcio yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

### SLC132 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar LefelauTaliadau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar  6 Mawrth 2008. Fei gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Drwy'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer Cymru yn rhoi i awdurdodau gorfodi yng Nghymru y canllawiau ar daliadau am dramgwyddau parcio a geir yn yr Atodlen.

### SLC134 - Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar  6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu pa rai o swyddogaethau'r swyddogion gorfodi sifil na chaiff y swyddogion hynny eu gwneud ond tra byddant yn gwisgo lifrai.  Pennir y swyddogaethau drwy gyfeirio at ddarpariaethau sy'n rhoi'r swyddogaethau hynny i'r swyddogion gorfodi neu sy'n sail i'w rhoi iddynt.

### SLC138 - Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

Mae Rheoliadau 2008 yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005  ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhoi ar waith Reoliad y Cyngor (EC) Rhif. 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth, a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif. 595/2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003. Diddymir Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 a chymerir ei le gan  Erthyglau 55 (1) (a) a 55 (2), i'r graddau y mae'n ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth eraill, ac Adran III o Bennod III o Ran II (Erthyglau  65 i 84) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol gosodedig. Mae Rheoliadau 2008 yn gosod yn lle'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 2005 at ddarpariaethau Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 y cyfeiriadau cyfatebol at ddarpariaethau Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007.  Mae Rheoliadau 2008 hefyd ail-ddeddfu'r diffiniadau yn rheoliad 2 (1) o Reoliadau 2005 ac yn ychwanegu rheoliad 2 (1A) newydd sy'n darparu bod y cyfeiriadau at ddarpariaethau gosodedig yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 a chyfeiriadau at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 yn gyfeiriadau at y darpariaethau hynny ac at y Rheoliad Comisiwn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

**Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

### SLC128 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cig (Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2007, ac yn darparu ar

gyfer gweithredu a gorfodi mewn perthynas â Chymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglŷn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid.

### SLC129 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 er mwyn codi'r ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am arolygiadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau hynny.

Y ffi a ragnodwyd yn wreiddiol yn Rheoliadau 2006 oedd £21. Newidwyd y ffi ddiwethaf ym Mehefin 2007, i £24 ac yn awr fe'i codir i £25.

### SLC133 - Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'i gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/614 (Cy.66)). Mae Rheoliad 5(a) o'r Rheoliadau hynny yn gwahardd, yn unol ag adran 72(4)(a) o Ddeddf 2004, gosod ffi gosb am dramgwydd parcio ac eithrio ar sail cofnod a gynhyrchir gan ddyfais a gymeradwyir neu wybodaeth a roddir gan swyddog gorfodi sifil parthed ymddygiad a welwyd ganddo ef. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu disgrifiad o ddyfais sydd yn ddyfais a gymeradwyir at y diben hwn. Yn unol ag erthygl 2, mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir os yw o fath sydd wedi ei hardystio gan Weinidogion Cymru fel un sydd yn bodloni'r gofynion a bennir yn yr Atodlen.

### SLC135 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio yng Nghymru yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau a wneir oddi tani yn disodli darpariaethau Rhan II ac Atodlen 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991.

### Eitem 4: Mesur Arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008

### Eitem 5: Unrhyw fater arall

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf